

**WE ARE
#CARDIFFMET**

**BA (ANRH) ADDYSG GYNRADD
GYDA
STATWS ATHRO CYMWYSEDIG**

**YSGOL ADDYSG A PHOLISI
CYMDEITHASOL**

Gwybodaeth Cynefino ac Ymrestru

Blwyddyn Academaidd 2019/2020



**Cardiff
Metropolitan
University**

**Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd**

CYNNWYS

[Croeso gan eich Tîm Addysgu](#)

[Tasgau cyn Cynefino](#)

[Tasgau'r Haf](#)

[Ymrestru /Casglu MetCard Myfyriwr](#)

[Wythnos Gynefino](#)

[Presenoldeb / Amserlen](#)

[Lincs Defnyddiol](#)

[Dysgu Seiliedig ar Waith](#)

Croeso gan eich Tîm Addysgu

Rydym yn falch iawn eich bod wedi dewis astudio yn yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Hoffai'r tîm staff eich croesawu i'ch astudiaethau. Mae aelodau'r staff yma i'ch cefnogi i gyflawni'ch nodau. Mae'n debygol y byddwch yn dod ar draws llawer o gyfleoedd a rhai heriau ar hyd y ffordd. Gallwch fod yn dawel eich meddwl ein bod ni, fel staff, yma i'ch helpu gymaint ag y bo modd, o'ch diwrnod cyntaf yn Lasfyriwr hyd eich Diwrnod Graddio a thu hwnt.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol ac ysgolion ar draws ein Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon i sicrhau bod y cwrs hwn yn ysgogol ac yn drefnus, ac yn cael ei gyflwyno gan diwtoriaid sydd â gwybodaeth dda am yr hyn y maen nhw'n ei addysgu ac yn dangos angerdd dros ddymuno i'w myfyrwyr wneud yn dda - ac rydyn ni'n ymrwymedig i sicrhau mai dyma'r profiad y cewch chi!

Mae eich wythnos gyntaf yn ymwneud â chyfarwyddo â'ch cwrs, eich tiwtoriaid, y campws a'r ddinas, ac wrth gwrs, i wneud ffrindiau newydd. Byddwch yn cwrdd â'r staff a fydd yn eich addysgu ac, yn bwysig, byddwch hefyd yn cwrdd ag eraill yn eich grŵp blwyddyn. Byddwch hefyd yn dod i adnabod eich tiwtor personol, a fydd yn esbonio'ch amserlen, yn gwirio bod popeth yn mynd yn dda ac yn datrys unrhyw faterion y gallech fod gennych.

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod a'ch cefnogi i gyflawni eich nodau personol a'ch amcanion gyrfaol.



Jordan Allers
jallers@cardiffmet.ac.uk
[@jordan_allers](https://twitter.com/jordan_allers)



Dr Jennifer Clement
jclement@cardiffmet.ac.uk



Bethan Rowlands
BRowlands2@cardiffmet.ac.uk
[@rowlands_bethan](https://twitter.com/rowlands_bethan)

Tasgau cyn Cynefino

Cyn ymrestru ar y rhaglen rhaid i bob myfyriwr fod wedi cwblhau'r broses DBS:

GWIRIAD DBS

Mae'r gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn un o sefydliadau'r Llywodraeth sy'n helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Bydd pob darpar fyfyrwr yn cael Datgeliad Manwl drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cyn ymrestru ar y rhaglen. Pan ganfyddir problem, caiff canlyniadau'r datgeliad eu cyfeirio at banel i'w hystyried a chaiff y darpar fyfyrwr ei hysbysu yn unol â hynny. Rhaid i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am y rhaglen, lle nad Prydain yw eu gwlad enedigol, ddarparu'r wybodaeth hon drwy ffynhonnell debyg o'u mamwlad cyn ymrestru.

Gwasanaeth Diweddarau'r DBS

Argymhellir bod ymgeiswyr yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddarau, fel y gall y datgeliad barhau'n gyfredol gydol yr astudiaethau a gall gwmpasu lleoliadau, os cânt eu cynnal. Efallai na fydd rhai darparwyr lleoliadau hefyd yn derbyn eich tystysgrif DBS gyfredol trwy Brifysgol Metropolitan Caerdydd oni bai eich bod wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth diweddarau.

Mae'r Gwasanaeth Diweddarau yn galluogi unigolion i wneud cais i ddiweddarau eu gwiriad cofnodion troseddol a i gyflogwyr wirio bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn ddilys, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Gall unigolion wneud cais am y Gwasanaeth Diweddarau ar yr un pryd â'r cais DBS, neu hyd at 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r dystysgrif DBS.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am DBS a sut i gwblhau'r broses [ar-lein drwy ddilyn y linc hon: www.cardiffmet.ac.uk/dbs](http://www.cardiffmet.ac.uk/dbs)

Tasgau'r Haf

Nid oes offer arbennig i'w prynu ar gyfer y rhaglen hon.

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol y bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau awyr agored yn ardal yr ysgol goedwig yn ystod yr wythnos gynefino felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â dillad priodol (siaced a throwsus diddos, a welintons neu esgidiau diddos). Byddwn allan yno beth bynnag fo'r tywydd a gall fynd yn fwdlyd iawn! Bydd myfyrwyr ar y cwrs Addysg Gynradd gyda SAC hefyd yn defnyddio'r gofod hwnnw drwy gydol y flwyddyn, felly bydd angen dillad priodol arnynt ar gyfer y cyfnod.

Llyfrau

Mae gan bob modiwl ddarllen gofynnol a darllen a argymhellir. Mae'r holl destunau hyn ar gael drwy'r llyfrgell, y rhan fwyaf ohonynt fel E-lyfrau. **Nid oes unrhyw ofyniad i brynu unrhyw un o'r testunau hyn** (er bod yn well gan rai myfyrwyr fod yn berchen ar eu copïau eu hunain). Gweler isod am sampl o ddarllen allweddol ar draws eich pedwar modiwl ym Mlwyddyn 1 (lefel 4):

Modiwl Dyfodol Llwyddiannus (I):

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu Yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru (<https://gweddiill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>)

Modiwl Meysydd Dysgu a Phrofiad (I):

Cope, B., & Kalantzis, M. (Golygyddion.). (2016). *A pedagogy of multiliteracies: Learning by design*. Springer.

Exploring Play and Early Learning Module:

Wood, E. (2013) *Play, Learning and the Early Childhood Curriculum*, 3rd edn. London: Sage

An Introduction to Child Development and Clinical Practice Module:

Papatheodorou, T., Luff, P., & Gill, J. (2011). *Child observation for learning and research*. Harlow: Longman. – (Ar gael fel e-lyfr).

Ymrestru /Casglu MetCard Myfyriwr

Mae ymrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel myfyriwr.

Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur drwy ein system hunan wasanaeth. Nodwch os gwelwch yn dda, er mwyn hunan-ymrestru; mae'n rhaid i'ch statws fod yn Bendant Ddiamod (UF), a rhaid i'ch gwiriad DBS Uwch fod wedi'i glirio a'i ddilysu gan Dderbyniadau.

Byddwch yn derbyn e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i ymrestru ar-lein. Bydd yr e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailodod cyfrinair er mwyn gofyn am gyfrinair er mwyn gallu mewngofnodi a chwblhau'r broses ymrestru. I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y broses hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n tudalen ymrestru www.cardiffmet.ac.uk/enrolment

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gael mynediad i'ch benthychiad myfyriwr (os gwnaed cais am un), talu ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac yn bwysig i'ch galluogi i gael eich MetCard myfyriwr.

Byddwch hefyd yn derbyn eich Llawlyfr Rhaglen yn ystod eich Wythnos Gynefino. Mae'r Llawlyfr Rhaglen yn llawlyfr hanfodol ar gyfer y Rhaglen a dylid ei gadw i'w ddefnyddio drwy gydol eich cwrs astudio. Bob blwyddyn academiaidd, darperir gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r lefel honno. Mae'r Llawlyfr yn cynnig arweiniad ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau a chanllawiau ar ddysgu ar gyfer ymarfer gyda gwybodaeth am bob modiwl i'w ddilyn a rhestrau darllen.

Ymrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE

Os ydych yn fyfyrwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) ni fydd gofyn i chi ymrestru ar-lein cyn cyrraedd Met Caerdydd. Y rheswm am hyn yw ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r Brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn y caniateir iddynt ymrestru ar eu cyrsiau. I gael rhagor o wybodaeth am ymrestru myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o'r dogfennau y bydd angen i chi ddod â hwy gyda chi, ewch i'r [tudalennau myfyrwyr rhyngwladol](#) neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfio Mewnfudo yn immigrationregs@cardiffmet.ac.uk neu Ffoniwch: 029 2041 5644.

Gwasanaethau Llyfrgell A Gwybodaeth

Byddwch yn gallu defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl cwblhau'ch ymrestru ar-lein. Bydd e-bost cadarnhau yn cael ei anfon atoch gyda'ch manylion mewngofnodi ar gyfer Met Caerdydd. I weld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library

Eich MetCard Myfyriwr

Bydd amser yn cael ei drefnu i chi gasglu eich MetCard a nodir hyn yn eich gwybodaeth am yr Wythnos Gynefino. Mae eich MetCard yn rhoi mynediad i chi i holl adeiladau a drysau'r prif gampws. Gallwch hefyd ychwanegu arian i'ch MetCard i allu defnyddio a thalu yn yr argraffwyr hunanwasanaeth, copiwyd a gwasanaethau Stiwdio Argraffu. I gael gweld rhagor o fanteision MetCard cliciwch [yma](#).

Ffioedd

Mae eich ffioedd rhaglen ar gyfer Medi 2019 wedi'u pennu ar £9,000. Os oes gan eich rhaglen unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrthi, fe'u rhestrir ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r rhain i sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs.

Gellir dod o hyd i fanylion am ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) [yma](#).

Wythnos Gynefino

Mae eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gydag Wythnos Gynefino, lle byddwch yn ymgartrefu yn eich llety, eich cwrs a bywyd myfyriwr. Mae amserlen eich Wythnos Gynefino yn rhestr o ddigwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i'ch cyfarwyddo â Met Caerdydd, ei chyfleusterau a'ch cydfyfyrrwyr. Byddwch yn cael y cyfle i fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n cwmpasu eich cwrs, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrrwyr ac Undeb y myfyrrwyr. Byddwch hefyd yn cyfarfod â'ch tiwtor personol, ac yn cael sawl sesiwn gyda hwy, er mwyn sicrhau bod eich cyfnod pontio academaidd mor llyfn â phosibl.

Ceir Ffair y Glas lle gallwch ymuno â nifer o wahanol gymdeithasau a chlybiau, a digwyddiad cymdeithasol MetFest ar brynhawn dydd Gwener.

Cofiwch gymryd rhan ar Twitter gyda **we are #cardiffmet #itecardiffmet**

Os ydych yn newydd i Gaerdydd, bydd digon o gyfleoedd hefyd i chi archwilio'r ddinas, gwneud ffrindiau newydd ac ymgartrefu yn eich bywyd newydd.

Mae cynefino yn achlysur mawr ar y campws, ac mae pawb yn cymryd rhan. Peidiwch â bod ofn stopio a gofyn - mae'r staff a'r myfyrrwyr i gyd yn hapus i groesawu unrhyw un newydd ar y campws.

Mae eich digwyddiadau a'r amserlen a gadarnhawyd yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn cael eu llwytho fel dogfen ar wahân ar ein tudalennau [Myfyrrwyr Newydd](#).

Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Arferol

Mae eich gradd yn cynnwys modiwlau ar wahân, gyda phob un yn cwmpasu gwahanol bynciau gyda'i ddull ei hun o ddarparu ac asesu. Mae ffocws pob modiwl wedi'i rannu i chi yn y llawlyfr modiwlau, sydd i'w weld ar Moodle. Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau naill ai'n 20, 30 neu 40 o gredydau, gyda 10 credyd yn cyfateb i 100 awr o astudio academaidd. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o sesiynau ffurfiol wedi'u hamserlennu ac astudiaeth annibynnol. Mae presenoldeb yn yr holl sesiynau addysgu yn orfodol.

Blwyddyn 1

Meysydd Dysgu a Phrofiad (I) – 30 credyd

Dyfodol Llwyddiannus (I) – 40 credyd

Archwilio Chwarae a Dysgu Cynnar – 20 credyd

Cyflwyniad i Ddatblygiad Plant ac Ymarfer Clinigol – 30 credyd (yn cynnwys 15 diwrnod ar Ymarfer Clinigol)

Cofiwch eich bod yn ymuno â chymuned ddysgu lle y byddwch yn dysgu gan eich gilydd ac yn cefnogi eich gilydd yn eich datblygiad academaidd a sgiliau. Mae'n hanfodol eich bod yn ymddwyn mewn ffordd broffesiynol ac yn cymryd rhan yn eich astudiaethau mewn ffyrdd sy'n hwyluso nid yn unig eich cynnydd eich hun ond cynnydd pobl eraill. Os ydych yn cael trafferth rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith yn effeithiol, yna trafodwch hyn gyda'ch tiwtor personol.

Cynhelir sesiynau amserlen rhwng 9am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nodwch fod 'gofod' rhwng sesiynau wedi'u hamserlennu yn amser yr ydych i fod i'w fuddsoddi mewn ymchwil ac astudio personol.

DS: Mae amserlenni yn amodol ar newid, hyd at a chan gynnwys dechrau'r tymor.

Fel myfyriwr blwyddyn gyntaf, bydd gennych fynediad at eich amserlen wedi'i chadarnhau o'r Wythnos Gynefino, sef cyn yr wythnos gyntaf o addysgu. Noder y bydd angen i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch weld y wybodaeth hon. Os yw eich lle wedi'i gadarnhau, ond nad ydych wedi cael gwybod y gallwch ymrestru, cysylltwch â Derbyniadau a all eich cynghori.

Fel rhan o'r modiwl 'Archwilio Chwarae a Dysgu Cynnar', mae'n bleser gennym gynnig y cyfle cyffrous i chi ennill dyfarniad Ysgol y Goedwig Lefel Dau Agored Cymru achrededig. Y gost arferol ar gyfer ymgeiswyr allanol yw tua £500. Fodd bynnag, mae hyn yn denu cymhorthdal i fyfyrwyr Met Caerdydd a dim ond oddeutu £26 fydd y gost. Mae hwn yn rhywbeth ychwanegol dewisol sy'n rhedeg ochr yn ochr â'ch astudiaeth.

Lincs Defnyddiol

[Amserlen](#)

Bydd y linc hon yn rhoi mynediad i chi i'ch amserlen a gadarnhawyd. Mae angen i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch gael mynediad at y linc hon, a chysylltir â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

[Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau](#)

Cyngor i fyfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud eich cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety neu fanteisio ar Wasanaeth Croeso'r Maes Awyr. Bydd y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau yn darparu cymorth llesiant a chyngor ar ddysgu trwy gydol eich cwrs.

[DBS](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed, yna gofynnir i chi gynnal gwiriad cofnodion troseddol fel rhan o'ch cynnig.

[Costau Cwrs Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu opsiynol, sy'n ychwanegol at ffioedd dysgu y mae'n rhaid i fyfyrwyr dalu amdanynt er mwyn iddynt gyfranogi'n llawn a chwblhau eu hastudiaethau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel offer, gwibdeithiau, lleoliadau a gwiriadau DBS. Mae gan bob rhaglen wahanol gostau ychwanegol.

[Llety](#)

Gall myfyrwyr symud i mewn i'r neuaddau o ddydd Gwener 14^{eg} Medi ond bydd mynediad i'r rhyngwyd ar gael dim ond i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r broses ymrestru yn llwyddiannus. Cynhelir digwyddiadau drwy gydol y cyfnod Cynefino, a chaiff y wybodaeth ei hanfon atoch gan yr adran Llety pan gaiff ei chadarnhau.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

Am help yn ystod eich amser gyda ni mewn perthynas â'ch iechyd, llesiant, ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anabledd a chaplaniaeth.

[Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau nad oes angen eu had-dalu, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a allai fod ar gael.

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) gan gynnwys gwybodaeth i Lasfyfyrwyr a bandiau arddwrn

[Dyddiadau Tymhorau](#)

[Mapiau Campws, Cysgodfeydd Beiciau a Met Rider](#)

Mae Met Caerdydd yn cynnig ei wasanaeth bws ei hun o'r enw Met Rider, a bydd ffurflen gais yn cael ei hanfon atoch gyda'ch Gwybodaeth Gynefino. Mae gennym hefyd gysgodfeydd Storio Beiciau ar bob campws, gyda chyfleusterau newid a chawodydd ar gael. Mae'r cysgodfeydd yn ddiogel a gellir mynd atynt dim ond trwy ddefnyddio eich MetCard pan fyddwch wedi gofyn am ganiatâd drwy'r parth gwybodaeth.

[Cynllun Taxis Diogel](#)

Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Taxis Diogel trwy Dragon Taxis sy'n sicrhau bod gennych bob amser ffordd i gyrraedd adref.

[Teithiau Rhithwir](#)

Edrychwch eto ar ein campws a'n cyfleusterau gyda'n teithiau rhithwir dan arweiniad

[Llawlyfr Myfyrwyr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyniadau](#)

Dysgu Seiliedig ar Waith

Cyfeirir at ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon fel ymarfer clinigol ym Model Partneriaeth Caerdydd. Mae ymarfer clinigol yn elfen graidd ac yn rhan annatod o'r rhaglen BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda SAC sy'n galluogi athrawon sy'n fyfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau addysgu ymarferol yn ogystal â phrofi a datblygu eu damcaniaethau personol eu hunain o ddysgu ac addysgu. Yn yr un modd â phob rhan arall o'r Rhaglen, mae ymarfer clinigol wedi'i gynllunio ar y cyd â Ysgolion/Cynghreiriau Partneriaeth Arweiniol (LPS/A) a bydd athrawon sy'n fyfyrwyr yn cael profiad o leoliadau mewn dau leoliad ymarfer clinigol: un mewn ysgol LPS/A ac un mewn Ysgol Lleoliad Clinigol (CPS). Mae LPS/A yn ysgolion a nodwyd fel darparwyr arweiniol o ran addysg a datblygiad proffesiynol. Bydd y lleoliadau hyn wedi'u lleoli'n bennaf o fewn y rhanbarthau sy'n gysylltiedig â Chonsortium Canolbarth y De ac EAS.

Ar lefel 4, mae ymarfer clinigol yn rhan o'r modiwl "Cyflwyniad i Ddatblygiad Plant ac Ymarfer Clinigol", sy'n cael ei addysgu'n rhannol o fewn y Brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys 15 diwrnod, un diwrnod yr wythnos, yn yr ysgol a bydd athrawon sy'n fyfyrwyr yn cymryd rhan yn bennaf mewn ymchwil ac ymholi ar lefel micro a macro, ac yn cymryd rhan mewn rhywfaint o addysgu tîm i feithrin eu sgiliau dysgu ac addysgu. Bydd rhagor o fanylion am y mathau o dasgau sy'n ofynnol ganddynt ar gael drwy'r llawlyfr modiwlau ond ni ddisgwylir ar y cam hwn i athrawon sy'n fyfyrwyr ymgymryd ag addysgu annibynnol.